# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

8 Hydref 2018

## SL(5)258 – Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Parc Tredegar), Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974) ar y darnau o ffyrdd ymadael traffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015. Effaith y diwygiad yw dileu darn bach o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth gyffordd 28 (Parc Tredegar) yr M4 o'r rhan o'r ffordd sy'n ddarostyngedig i derfyn cyflymder amrywiadwy. Mae terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr yn gymwys i'r darn hwnnw o'r ffordd ymadael o dan y Rheoliadau hyn.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

**Fe'u gwnaed ar:** 24 Medi 2018

**Fe'u gosodwyd ar:** 27 Medi 2018

**Yn dod i rym ar:** 19 Hydref 2018